

PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 5 MEDI 2017

Yn
bressenol: Cynghorydd Patel(Cadeirydd)

Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Lay, Mackie,
Owen, Wong, Wood a/ac Caerhirfryn

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor fod yr Aelodau canlynol wedi eu penodi i'r Pwyllgor a bod y Cynghorydd Ramesh Patel wedi'i benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw yng nghyfarfod y Cyngor ar 25 Mai 2017:

Y Cynghorwyr Philippa Hill-John, Jones, Lancaster, Lay, Mackie, Owen, Wong ac Wood

2 : CYLCH GORCHWYL

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

5 : COFNODION

Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 14 Chwefror a 7 Mawrth 2017. Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf.

6 : RHEOLI GLANWEITHDRA STRYDOEDD A STRYDLUN CAERDYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddodd briff i'r Aelodau ar sut mae'r Cyngor yn delio gyda sbwriel, glanhau strydoedd a'r strydlun gyfan yng Nghaerdydd ac yn enwedig, y categorïau amrywiol o sbwriel; yr adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â sbwriel; heriau rheoli sbwriel; ymgyrchoedd rheoli sbwriel a chanlyniadau Systemau Rheoli ac Amgylcheddol Lleol (LEAMS)

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod tasg gan y Cyngor i reoli sbwriel yn y ddinas. Mae hyn yn berthnasol yn bennaf i fannau cyhoeddus, ond, mewn rhai achosion mae hefyd angen i'r Cyngor fod yn gyfrifol am lanhau tir preifat. Cyflawnir y prif swyddogaethau yn ymwneud â rheoli sbwriel gan y Gwasanaeth Glanhau Strydoedd a Gorfodi Gwastraff ac fe'u darperir gan dîm Gwasanaethau Cymdogaeth y Cyngor.

Ar 6 Gorffennaf 2017 cyhoeddwyd y Cyngor y ddogfen 'Uchelgais Prifddinas' sy'n nodi ymrwymïadau'r awdurdod, gan gynnwys rheoli sbwriel a glanhau strydoedd.

Nodwyd y pedwar ymrwymiad yn ymwneud â rheoli sbwriel a glanhau strydoedd yn yr adroddiad.

Mae'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd yn darparu nifer o dasgau statudol gan gynnwys glanhau strydoedd, gwagio biniau cyhoeddus ac atal tipio anghyfreithlon. Mae'r gwasanaeth yn glanhau tua 1088 km o lôn gerbydau a 1900 km o lwybrau cerdded ac yn gwacau tua 1700 o finiau'n rheolaidd. Yn 2016/17, ymatebodd y gwasanaeth i 7,958 o ddigwyddiadau o dipio anghyfreithlon y cliriwyd 7,827 ohonynt o fewn 5 diwrnod. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod digwyddiadau o dipio anghyfreithlon wedi cynyddu gan 1,744 (tua 28%) rhwng 2015 a 2016 a 2016 a 2017. Er gwaethaf y cynnydd hwn, ymatebodd i 98.35% o ddigwyddiadau o fewn 5 diwrnod.

Mae'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd yn cyflogi 164 aelod o staff llawn amser. £6,058,546 oedd cost gyfan rhedeg y gwasanaeth yn ystod 2016/17, a arweiniodd at gost net i'r Cyngor o £6,058,546. Mae cost rhedeg y gwasanaeth wedi'i lleihau gan 16.9% ers 2011/12.

Mae'r Gwasanaeth Gorfodi Gwastraff yn gyfrifol am reoli gwastraff gweithgareddau addysg a gorfodi. Yn 2016/17 deliwyd y gwasanaeth â 19,847 o achosion. Cyflwynwyd y gwasanaeth 2,075 o hysbysiadau cosb benodedig yn 2016/17. Atodwyd crynodeb o'r achosion a'r hysbysiadau cosb benodedig hyn at yr adroddiad.

Mae'r Gwasanaeth Gorfodi Gwastraff yn cyflogi 41 aelod o staff. Mae chwe swyddog yn rhai dros dro am 12 mis ac ariennir dau swyddog gan y Brifysgol. Yn ystod 2016/17, £1,099,383 oedd cost gyfan rhedeg y gwasanaeth; arweiniodd hyn at gost net i'r Cyngor o £332,336. Cefnogwyd y gost net gan arian grant gwerth £415,000 a chan £352,047 sydd wedi dod o ddirwyon. Yn ystod y cyfnod 2011/12 tan 2015/16 cynyddodd yr incwm sydd wedi dod o ddirwyon o £26,012 i £352,047.

Dywedwyd wrth yr Aelodau yr adolygwyd y grymoedd oedd ar gael i swyddogion gan y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol ym mis Mawrth 2017. Atodwyd copi o'r adroddiad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor, crynodeb o'r gwasanaeth a diweddariad ar nifer o ddatblygiadau newydd at yr adroddiad yn Atodiad 2.

Prif elfennau'r broses orfodi yw Ymwybyddiaeth Addysg, Gorfodi ac Atal a Phrosesu a Thrafodion. Mae angen i'r tair rhan ategu ei gilydd er mwyn bod yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o faterion gorfodi gwastraff a'r amgylchedd yn dod o dan pedwar pennawd eang, sef: Cyflwyno Gwastraff, Ansawdd Amgylchedd Lleol (AALI), Tipio Anghyfreithlon a Gorfodi Trwyddedu Priffyrdd.

Mae dau dîm yn y Gwasanaethau Cymdogaeth yn cyflwyno dirwyon am dramgwyddau trwyddedu priffyrdd, gwastraff/amgylcheddol sef y Tîm AALI a'r Tîm Gwastraff, mae'r Tîm AALI yn cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCBau) am sbwriel a baw cŵn; a thramgwyddau priffyrdd megis fframiau A, caffis stryd, postio anghyfreithlon a sgaffaldau. Mae'r Tîm Gwastraff yn cyflwyno HCBau'n bennaf am gyflwyno gwastraff yn anghywir.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r prif ddangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fesur glanweithdra'r strydoedd: LEAMS – arolygon System Rheoli ac Archwilio Amgylcheddol Lleol; a 2 ddangosydd perfformiad wedi sefydlu – y Fynegai Lanweithdra a'r ganran o Briffyrdd sydd â Safon Uchel neu Dderbyniol o

Lanweithdra. Rhoddodd Atodiad 3 yr adroddiad ddyluniad o'r dangosyddion perfformiad ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2014 tan Orffennaf 2017.

Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd i'r Cyngor lansio'r ymgyrch ddinas gyfan 'Carwch Eich Cartref' ym mis Medi 2016, sydd â'r bwriad o wella safon glanweithdra strydoedd a chymdogaethau trwy gael cymorth trigolion lleol. I ddechrau canolbwyntiodd yr ymgyrch ar wardiau mewnol y ddinas sef Grangetown, Treganna, Cathays, Glan-yr-afon, Plasnewydd, Adamsdown a Sblot. Targedwyd pob ward am wythnos ac ymwelwyd â phob ward dwywaith. Ymwelwyd ag wardiau allanol hefyd am hyd byrrach.

O ran cynigion yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth, ystyriwyd nifer o fentrau a gwelliannau gwasanaeth newydd, gan gynnwys: pwyslais ar y strydlun gyfan; cyflwyno cynlluniau gweithredu cyfan ar sail wardiau; digideiddio Gorfodi Gwasanaethau Cymdogaeth; gorfodi trwyddedu priffordd a chyflwyno Gorchmynion Amddiffyn Mannau Cyhoeddus; darparu gorfodi ar gamera mewn perthynas â thipio adeiladu/masnachol graddfa fawr; diweddariad ar newidiadau i dipio anghyfreithlon graddfa fach; gwirfoddoli ac ymgysylltu dinasyddion.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgyrchu a'r Amgylchedd, ac Andrew Gregory, y Cyfarwyddwr Corfforathol, i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y Cynghorydd Michael, i roi datganiad.

Diolchodd y Cynghorydd Michael i'r Pwyllgor am y gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod. Dywedodd y Cynghorydd Michael fod Glanhau strydoedd yn fater pwysig ar gyfer dinasyddion a'i fod yn bwriadu cyflawni gwelliannau trwy roi prosesau ar waith i gael strydoedd glanach.

Ystyriodd y Cynghorydd ei bod yn bwysig ystyried y strydlun gyfan a pheidio â dibynnu ar yr awdurdod i anfon timau gwahanol o bersonél i ddelio â materion gwahanol. Bydd technolegau newydd hefyd yn cynorthwyo gyda gwella'r gwasanaeth.

Derbyniodd y Cynghorydd Michael y bydd yr awdurdod bob amser yn wynebu heriau gan fyfyrwyr, digwyddiadau mawr a chymudwyr. Bydd y dull strydlun gyfan ynghyd ag ymgysylltu â chymunedau ar fentrau megis 'Carwch Eich Cartref' a 'Y Sesiwn Glanhau Mawr' yn arwain at strydoedd glanach a llai o dipio anghyfreithlon.

Caiff ymagwedd o beidio goddef taflu sbwriel ei mabwysiadu. Bydd gan y cyhoedd rôl i'w chwarae i helpu i symud at sefyllfa lle y ystyrir bod taflu sbwriel yn annerbyniol. Defnyddir addysg a gorfodi i annog newid o ddiwylliant yn hyn o beth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr mai'r her oedd gwneud strydoedd yn lanach ac eto, er bod targedau'n cael eu bodloni, mae'r strydlun yn dal i deimlo'n frwnt. Eir i'r afael ag ystod o faterion megis coed, draeniau, gylfiau ac arwyddion ar y cyd dan yr asesiad ardal gyfan. Disgwylwyd hefyd y byddai ymgysylltu agosach ag Aelodau a'r gymuned yn arwain at welliannau. Cydnabu'r Cyfarwyddwr fod nifer o ffactorau sy'n effeithio ar y strydlun, ac mae'r ffactorau hyn yn wahanol mewn rhannau gwahanol o'r ddinas. Holwyd a mai gwasanaeth cyffredinol oedd y ffordd effeithlon gan fod dwyseddau gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r ddinas.

Rhoddodd Matt Wakelam, Rheolwr Gweithredol, Seilwaith a Gweithrediadau, gyflwyniad ar Reoli Glanweithdra Strydoedd. Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, ceisio eglurhad neu wneud sylwadau am y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau pryd y byddai Cynlluniau Gweithredu Wardiau yn cael eu cyflwyno. Dywedodd swyddogion y byddai Cynlluniau Gweithredu Wardiau yn cael eu treialu ym mis Ionawr 2018, mewn nifer o wardiau'n gyntaf. Roedd hefyd gyfle i edrych ar lifoedd cyllid eraill, megis a106, yn rhan o'r cynlluniau.
- Croesawodd yr Aelodau Cynlluniau Gweithredu Wardiau. Gofynnwyd i swyddogion esbonio sut y byddai camau gweithredu eu blaenoriaethu mewn wardiau. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Cynlluniau Ardal Wardiau yn nodi canfyddiadau a balans yn erbyn y wybodaeth dechnegol sydd ar gael. Mae'r cynlluniau yn cynrychioli cytundeb rhwng nifer o bartïon. Derbyniwyd y bydd mwy o 'angen' mewn rhai wardiau.
- Nododd yr Aelodau fod nifer y digwyddiadau o faw cŵn yn gymharol isel a gofynnon nhw a yw swyddogion yn ceisio cynyddu hyn. Dywedodd swyddogion ei bod yn anodd i swyddogion i dystio cŵn yn baw, ond pan ydynt yn eu gweld, maent yn cymryd camau. Gwahoddwyd cynghorwyr i godi achosion pryder lleol.
- Gofynnwyd i swyddogion esbonio pam bod nifer y digwyddiadau o dipio anghyfreithlon wedi adrodd yn y ddinas wedi cynyddu gan 28%. Dywedwyd wrth yr Aelodau y cofnodwyd adroddiadau o daflu sbwriel a dderbynnir gan C2C yn aml fel tipio anghyfreithlon a byddai hyn yn sgiwio'r ffigurau wedi adrodd. Cafodd digwyddiadau mawr, megis Ffeinal Cynghrair y Pencampwyr, effaith hefyd ac roeddent wedi camlunio'r ffigurau. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai diffiniad cryf o'r hyn sy'n dipio anghyfreithlon yn cynorthwyo materion.
- Gofynnodd yr Aelodau a archwilir strydoedd glân ar amseroedd gwahanol o'r dydd ac ar ddiwrnodau gwahanol o'r wythnos. Dywedodd swyddogion y dylai archwiliadau gael eu gwneud ar hap. Gall archwiliadau a wneir yn rhan o archwiliadau diogelwch gael eu gwneud ar unrhyw amser o'r diwrnod. Mae swyddogion hefyd yn gallu coladu data, megis nifer o gwynion, a gellir defnyddio'r data i nodi tueddiadau. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd problemau sbwriel ar ôl casgliadau gwastraff. Gellir holi data hefyd fel y gellir targedu gorfodi yn y dyfodol.
- Cydnabu'r Aelodau fod materion penodol yn ward Cathays sy'n gysylltiedig â nifer uchel o fyfyrwyr sy'n byw yn yr ward. Gan gyfeirio at y nifer uchel o hysbysiadau cosb a gyflwynwyd yn ward Cathays, gofynnodd Aelod a oedd myfyrwyr yn cael eu targedu gan eu bod yn cydymffurfio'n fwy neu a oedd swyddogion gorfodi yn fwy effeithlon yn ward Cathays. Dywedodd y Pwyllgor y ceisir cysylltu â phob annedd myfyrwyr a rhoi cyngor ar y ffordd gywir o gyflwyno gwastraff. Cynigir pecynnau addysg a chofnodir ymweliadau. Os cyflwynir gwastraff yn anghywir yn dilyn hynny yna mae'n bosibl y caiff dirwyon eu cyflwyno. Cefnogir yr Awdurdod gan y Brifysgol o ran anfon neges gref i fyfyrwyr, os na thelir dirwyon, caiff gwŷs ei chyflwyno; mae'n fater troseddol a gwneir taliadau i'r Llysoedd.

- Ystyriodd yr Aelodau, gan fod 659 hysbysiad Adran 46 wedi'u cyflwyno yn ward Cathays, y gallai'r cyhoedd ganfod bod yr awdurdod yn canolbwyntio ei sylw ar yr ward hwnnw. Gofynnodd Aelod a oedd swyddogion wedi ystyried dulliau eraill o orfodi, megis targedu landlordiaid tai amlfeddiannaeth. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr awdurdod yn gweithio gyda landlordiaid yn rhan o'r rhaglen addysg. Mae angen erlyn ar sail tystiolaeth a felly ni fyddai'n bosibl dirwyo landlordiaid am droseddau nad ydynt wedi'u cyflawni.
- Holodd yr Aelodau nad oedd dim troseddau wedi'u hadrodd mewn rhai wardiau. Ystyriodd rhai Aelodau nad oedd yn debygol nad oedd dim troseddau'n cael eu cyflawni yn yr wardiau hynny a gofynnon nhw, felly, a oedd troseddau'n cael eu hymchwilio. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gwahaniaethau clir wrth i'r gweithgareddau gael eu gwneud mewn wardiau gwahanol. Bydd Cynlluniau Gweithredu Ardaloedd, os ydynt yn cael eu cydbwyso'r gywir, yn arwain at lai o weithgarwch mewn rhai wardiau a mwy o weithgarwch mewn wardiau eraill.
- Gofynnodd yr Aelodau am yr hyn y gellid ei wneud i leihau casgliadau wedi methu yng Nghanol y Ddinas. Dywedodd swyddogion fod y Cyngor yn casglu 30% o'r gwastraff a gyflwynir yng Nghanol y Ddinas yn unig. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda chasglwyr gwastraff eraill. Mae Tîm Canol y Ddinas yn cynnig gwasanaeth 24/7 a fydd yn ymateb yn rhagweithiol i adroddiadau am gasgliadau wedi methu.
- Nododd yr Aelodau fod ward Cathays yn destun lefelau uchel o weithgarwch gorfodi o gymharu â Phlasnewydd; ardal o gyfansoddiad tebyg a lle bo problemau gorfodi gwastraff tebyg yn gyffredin. Holodd yr Aeloda a oedd Cathays yn cael ei dargedu gyda mwy o swyddogion gorfodi. Dywedodd swyddog fod problemau difrifol yn cyflwyno'u hunain yn aml yn ward Cathays ac nad oedd dim wardiau eraill yn broblematig.
- Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion pellach o ran y gyfradd gasglu ar hysbysiadau wedi'u cyflwyno. Cytunodd swyddogion i roi manylion am y gyfradd gasglu.
- Gofynnodd Aelod a yw'r awdurdod yn cadw gwybodaeth am ddechreuad troseddwyr tipio anghyfreithlon. Nododd swyddogion mai trigolion lleol yw troseddwyr tipio anghyfreithlon graddfa fach yn aml. Ystyriodd swyddogion hefyd y gallai tipio anghyfreithlon graddfa fwy, megis gwastraff adeiladu, a ddympir ar ymylon y ddinas, darddu o'r tu allan i derfynau'r ddinas.
- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r awdurdod yn mynd i'r afael â phroblemau cyflwyno gwastraff posibl sy'n digwydd mewn llety dros dro yn y ddinas. Dywedodd swyddogion mai preswylwyr dros dro, megis ceiswyr lloches, yw unigolion sy'n byw mewn llety dros dro yn aml. Ariennir eu llety gan y Swyddfa Gartref. Mae cytundeb gan yr awdurdod gyda Clearsprings, sy'n talu'r awdurdod i gasglu gwastraff a rhoi cyngor ar gyflwyno gwastraff mewn nifer o ieithoedd a thafodieithoedd. Rheolir problemau megis llety pan gânt eu hadrodd.
- Anogir trigolion i roi gwybod am broblemau gwastraff a disgwyliwyd y byddai digideiddio'n gwneud rhoi gwybod am broblemau'n haws.
- Penodwyd y 7 aelod o staff gorfodi ychwanegol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad trwy ddefnyddio dyraniad cyllideb un tro. Mae'r swyddogion ychwanegol wedi

canolbwyntio ar ddarparu gorfodi gwell mewn perthynas â byrddau a chadeiriau, sgiapiau, sgaffaldau a fframiau A.

- Gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion esbonio'r lleihad yn safonau LEAMS rhwng Medi 2016 a Mai 2017. Dywedodd swyddogion fod gostyngiadau wedi digwydd o ganlyniad i gwympiad dail blynyddol yr Hydref a newidiadau i broses archwilio LEAMS. Gofynnwyd i aelodau nodi, er bod y gostyngiad hwn yn bryderus, fod y tuedd gyffredinol yn y data yn dangos bod safonau'n gwella. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr awdurdod yn ceisio perthynas agosach rhwng mesur glanweithdra a chanfyddiad pobl. Gofynnodd yr Aelod Cabinet a oedd safon cyffredinol ar gyfer glanweithdra a dywedodd y byddai'n croesawu mwy o ymchwilio gan y Pwyllgor i hyn.
- Gofynnodd Aelod am farn swyddogion ar lefelau absenoldeb salwch yn y gwasanaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod polisïau corfforaethol yn cael eu rhoi ar waith yn llym.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

7 : RHEOLI AILGYLCHU YNG NGHAERDYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi briff ar y dull wedi'i ddefnyddio gan y Cyngor i ailgylchu a phrosesu deunydd gwastraff y mae'n ei gasglu yng Nghaerdydd. Ceisiodd yr adroddiad dynnu sylw at y targedau statudol, seilwaith sydd ar gael, adnoddau, heriau a chyfrifoldebau wedi'u gosod ar y Cyngor. Rhaid i'r Cyngor fodloni'r ymrwymadau statudol wedi'u gosod arno gan ddeddfwriaeth.

Helpodd Strategaeth Rheoli Gwastraff 2011 y Cyngor i gynyddu cyfraddau ailgylchu cyffredinol o 39% yn 2009/10 i 52% yn 2012/13. Ond, yn 2013/14 ni wnaeth yr awdurdod fwrw targed Llywodraeth Cymru o 50%. Roedd angen mesurau atal mewn blynyddoedd yn y dyfodol i sicrhau bod targedau ailgylchu'n cael eu sicrhau a bod cymaint o arian â phosibl yn cael ei arbed trwy wella'r ffordd mae'r gwasanaeth yn rhedeg. Hefyd, roedd angen i'r Cyngor brofi ei gydymffurfiaeth â'i ddyletswydd i gasglu deunyddiau ailgylchadwy ar wahân a chael ailgylchu o ansawdd.

Felly, roedd Strategaeth Rheoli Gwastraff 2015 yn ystyriol o'r angen i fwrw targedau ailgylchu ar gyfer 2017/18; amlinellu sefyllfa'r dyfodol ar y methodoleg casgliadau ailgylchu; ceisio gostyngiadau mewn costau a gweithredu'r dull mwyaf effeithiol; sicrhau ailgylchu ansawdd uchel; lleihau'r ôl troed carbon; a sicrhau partneriaethau a gweithio rhanbarthol hirdymor ar gyfer ailgylchu; a chynnal gweithgareddau lleihau, addysg a gorfodi gwastraff.

Dywedwyd wrth yr Aelodau yr adolygir y Strategaeth Rheoli Gwastraff bob tair blynedd i sicrhau ei bod yn adlewyrchu deddfwriaeth a heriau presennol. Crynhawyd y saith amcan craidd sy'n tanlinellu'r strategaeth yn yr adroddiad. Torrwyd y strategaeth yn nifer o gamau gweithredu. Mae pob cam wedi bod yn destun cynllun busnes manwl a chymeradwyaeth gyllideb. Hefyd nodwyd crynodeb o bob un o'r pum cam yn yr adroddiad.

Atgoffwyd yr aelodau am y risg ariannol sydd ynghlwm wrth fethu â bwrw targedau ailgylchu. Os na wneir unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae'r Cyngor yn ailgylchu, yna mae dirwyon o £21 miliwn yn bosibl rhwng nawr a 2020.

Mae hefyd wedi bod newid yn neddfwriaeth yr UE oedd yn ymwneud ag ailgylchu a chasgliadau gwastraff, fel y nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2012 a Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2012 ar ôl hynny, Amlinellodd y rheoliadau yr angen am gasgliadau gwastraff ar wahân o bapur, metel, plastig a gwydr gwastraff, neu i arddangos y gallai'r dulliau ailgylchu a ddefnyddir gyflawni ailgylchu o ansawdd, tra bod yr ateb ymarferol technegol, amgylchedd ac economaidd (TEEP) gorau.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'i dewis ddull o gasglu yn y 'glasbrint casgliadau' a gallai methu â glynu at y glasbrint hwn arwain o bosibl at golli arian grant sy'n werth mwy na £7 miliwn i'r awdurdod y flwyddyn ar hyn o bryd. Rhaid meincodi'r achos busnes TEEP yn erbyn ateb blwch didoli ar garreg y drws gan benderfynodd yr UE a Llywodraeth Cymru mai'r dull hwn yw'r ateb gorau posibl.

Datblygodd y Cyngor dystiolaeth gadarn a modelu data o gwmpas ei benderfyniad i ddefnyddio casgliadau gwastraff ailgylchadwy cymysg. Nodwyd y prif feysydd y ystyriwyd y Cyngor yn ei sail dystiolaeth yn yr adroddiad. Hefyd ystyriodd y Cyngor yr effeithiau iechyd a chymdeithasol o'i ddull casglu.

Cynhwysodd yr adroddiad fanylion am yr amserlen gasglu bresennol a throsolwg o newidiadau diweddar i gasgliadau gwastraff, megis estyn y rhaglen bin olwynion a chyflwyno bin 140 litr ar gyfer gwastraff cyffredinol.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau fod Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) yn cynnig cyfleusterau ar gyfer gwaredu ystod o ddeunydd a gwastraff ailgylchadwy. Mae CAGCau yn ailgylchu ychydig dros 60% o'r deunyddiau y maent yn eu derbyn. Mae gan y Cyngor ddau safle pwrpasol yn Lamby Way a Bessemer Close. Yn ogystal, mae safle Wedal Road ar agor o hyd tan fod darpariaethau aildddefnyddio ar waith.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn prosesu ac yn ailgylchu llawer o'r gwastraff a gesglir trwy'r seilwaith canlynol:

- Cyfleuster Adennill Deunyddiau (CAD)
- Cyfleuster Adennill Ynni Caerdydd (AYC) –
- Ynni Organig Kelda
- Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Mae gwaith rhanbarthol trwy gaffael ar y cyd wedi bod yn llwyddiannus a thrwy gydweithio ar brojectau megis Prosiect Gwyrdd, gall awdurdodau contractau caffael rhanbarthol a chaffael organig Caerdydd a'r Fro rannu costau adnoddau a sicrhau ffioedd porth gwell trwy arbedion maint. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi gwaith rhanbarthol mwy i sicrhau arbedion cost hirdymor. Tra bod dulliau rhanbarthol yn bodoli ar gyfer gwastraff preswyl a gwastraff bwyd a gwyrdd mae blwch o hyd yn y farchnad ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy.

Cynigir y bydd y Cyngor, trwy bartneriaeth â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cymdogol, yn archwilio posibilrwydd o gyfleuster ailgylchu rhanbarthol. Prif amcanion

y cyfleusterau fydd sicrhau capasiti ailgylchu i'r dyfodol yn y rhanbarth; creu deunyddiau ansawdd uchel ar gyfer y farchnad; creu cyfleuster prosesu hyblyg ar gyfer yr holl ddeunyddiau ailgylchadwy sych; a chyflawni arbedion maint i brosesu'n effeithiol o ran costau a mwyhau y posibilrwydd am incwm ar gyfer y rhanbarth.

Rhoddodd yr adroddiad i'r Aelodau hefyd grynodeb o'r canlyniadau dangosydd perfformiad ailgylchu o 2012/13 i 2015/16.

Gwahoddwyd y Cyngorydd Michael Michael, Aelod Cabinet dros Strydoedd Glan, Ailgylchu a'r Amgylchedd i wneud datganiad byr. Dywedodd y Cyngorydd Michael fod Caerdydd yn well na'r dinasoedd craidd hynny sydd â chyfradd ailgylchu o 58% diolch yn bennaf i gefnogaeth eang y cyhoedd am ailgylchu. Mae anwadalarwydd marchnadoedd ailgylchu yn parhau i fod yn her i'r awdurdod. Yn y dyfodol bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella ansawdd deunyddiau wedi ailgylchu, cydweithredu rhanbarthol a'r dulliau casglu gorau.

Gwahoddwyd Pat McGrath, Rheolwr Gweithredol, Seilwaith a Phrojectau a Jane Cherrington, Rheolwr Gweithredol, Strategaeth a Gorfodi i roi cyflwyniad byr ar ysgogwyr a heriau ailgylchu. Cafodd Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, gofyn cwestiynau neu geisio eglurhad pellach am y wybodaeth dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr Aelodau fod cyfanswm y gwastraff a gasglwyd yn ystod 2015/16 wedi cynyddu gan 7000 tonn. Nododd swyddogion fod cynyddiadau yn y llif gwastraff masnachol a nifer o ddiwyddiadau mawr yn y ddinas wedi cynyddu'r tunelli wedi'u casglu.
- Gofynnodd yr Aelodau pa wersi sydd wedi'u dysgu wrth weithredu newidiadau blaenorol i gasgliadau gwastraff. Dywedodd swyddogion fod y ffordd y mae'r awdurdod yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd wedi newid ac roedd bellach wydnwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Cydnabuwyd hefyd fod angen mwy o ymgynghoriad cyhoeddus o flaen llaw.
- Nododd y Pwyllgor fod cyfleusterau CAGC yn perfformio'n dda. Gofynnodd Aelod a yw'r cynnig i greu cyfleuster ail-ddefnyddio yn Wedal Road yn debygol o effeithio ar berfformiad ailgylchu. Gofynnwyd i swyddogion hefyd pa gynigion oedd yn cael eu hystyried i gynyddu cyfraddau ailgylchu'n fwy. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor yn anelu at gyfradd ailgylchu o 100%. Credodd yr Aelod Cabinet fod CAGCau yn cynnig gwasanaeth cyfyngedig ond mai cyfleusterau pwrpasol mawr megis safle Lamby Way sy'n gallu cynnig ystod eang o wasanaethau ac sy'n hygyrch, yw'r ffordd ymlaen. Roedd y weinyddiaeth yn dal i ystyried dewisiadau ar gyfer cynyddu nifer y CAGCau yn y ddinas.
- Gan ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, nododd yr Aelod Cabinet fod trafodaethau gydag awdurdodau cymdogol yn cael eu cynnal ac y gallai fod lle ar gyfer dull ar y cyd, er enghraifft, o gasglu am ynni gan wastraff. Fodd bynnag, roedd y rhain yn drafodaethau cymhleth.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod casgliadau bin olwynion yn creu llai o wastraff a llai o sbwriel, ond mae'r rhain ond yn bosibl mewn rhannau penodol o'r ddinas. Byddai dulliau casglu gwahanol yn cael eu hystyried ac mae'r awdurdod i dreialu gwahanu gwydr yn y dyfodol agos. Dadleuodd y Pwyllgor y cynnig. Credodd rhai

Aelodau nad yw gwahanu ailgylchu ymhellach, megis y dulliau trefnu ar garreg y drws a ddefnyddir gan rai awdurdodau, yn ymarferol yng Nghaerdydd ac yn methu ag ennill cefnogaeth y cyhoedd. Credodd Aelodau eraill y byddai'r cyhoedd yn cefnogi symudiad o'r fath. Dywedodd yr Aelod Cabinet y cyflwynwyd yr un dadleuon pan gafodd casgliadau biniau gwyrdd eu cyflwyno a phan gafodd maint biniau du eu lleihau. Credodd y byddai'r cyhoedd yn cefnogi unrhyw gynigion a fyddai'n cynyddu ymhellach swm net y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu.

- Gofynnodd yr Aelodau pa fentrau sydd ar waith i annog diwylliant ailgylchu mewn ysgolion ac ymhlith plant ysgol. Dywedodd swyddogion fod yr 'Ymgrych Sothach Sbwriel' yn cael ei chynnal am y 10fed blwyddyn yn yr holl ysgolion yn y ddinas, gyda'r bwriad o hybu ailgylch'.
- Gofynnodd yr Aelod beth oedd yn cael ei wneud i leihau gwastraff neu ail-ddefnyddio nwyddau nad oes eu heisiau. Dywedodd swyddogion nad yw lleihau gwastraff yn cyfrif tuag at dargedau ailgylchu. Fodd bynnag, roedd rhaglenni megis gwneud gwrtaith mewn cartrefi ar waith. Cydnabuwyd manteision cymdeithasol lleihau gwastraff ac ail-ddefnyddio ond ar hyn o bryd nid oedd effaith sylweddol ar berfformiad.
- Cydnabuwyd yr Aelodau yr her sy'n gysylltiedig â chasgliadau gwastraff o breswylwyr mewn blociau fflat. Roedd problemau lle a storio'n bryder mawr. Roedd angen mwy o addysg a gorfodi gan ei bod ond yn cymryd un preswlydd i lygru'r llif gwastraff. Derbyniodd swyddog fod angen gwneud mwy o waith.
- Gofynnodd yr Aelodau pam bod cyfyngiad ar ddarparu bagiau ailgylchu. Dywedodd swyddogion fod amcangyfrif bod £1 miliwn wedi'i gollu dan y system flaenorol gan nad oedd rheolaeth a chan yr oedd nifer diderfyn o fagiau ailgylchu yn cael eu rhoi i unrhyw un. Mae bagiau ailgylchu ar gael o hyd ym mhob adeilad y Cyngor a gellir eu harchebu ar-lein.
- Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r ffigur ailgylchu 60% mewn CAGCau yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac a yw swyddogion wedi ystyried arddangos ffigurau ailgylchu i aelodau'r cyhoedd mewn CAGCau. Dywedodd swyddogion fod y ffigur o 60% yn isel ar y tabl cynghrair. Roedd arwyddion yn dal i gael eu codi a chaiff ffigurau eu harddangos yn y dyfodol agos.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

8 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL – RHAGLEN WAITH DRAFFT 2017/18

Derbyniodd yr Aelodau raglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2017/18. Gwahoddodd y Prif Swyddog Craffu sylwadau ar y rhaglen waith. Croesawodd yr Aelodau y rhaglen waith ac roeddent yn gefnogol yn eang o'r pynciau wedi'u cynnwys.

Ceisiwyd datganiadau o ddiddordeb gan yr Aelodau a allai fod â diddordeb mewn bod yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llygredd Awyr. Cytunodd y Prif Swyddog

Craffu i gylchredeg e-bost yn rhoi rhywfaint o eglurdeb ar broses y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a cheisio cyfranogwyr.

CYTUNWYD – Cymeradwyo Rhaglen Waith Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ar gyfer 2017/18.

9 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhodddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 3 Hydref 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm